Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG

The Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

20 Gorffennaf 2007

Annwyl Gyfaill

Ymgynghoriad – Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru)

Sefydlwyd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) ar 4 Gorffennaf 2007 i ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2007.

Wrth graffu ar yr egwyddorion cyffredinol, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar gwmpas y gwaith craffu y bydd yn ei wneud cyn y broses ddeddfu, gan weithio o fewn fframwaith y tri chwestiwn cyffredinol canlynol:

1. Pam bod angen Cynllun Gwneud Iawn?

2. A yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni amcan y polisi?

3. Beth yw barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda system gwneud iawn?

Hefyd, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried rhai cwestiynau mwy manwl, yn benodol:

4. Beth fydd agweddau ymarferol sicrhau fod y system yn gweithio ac a yw'r Mesur arfaethedig yn darparu ar eu cyfer?

5. A yw'n briodol fod cymaint yn cael ei wneud trwy reoliadau, h.y. bydd manylion unrhyw gynllun neu gynlluniau yn cael eu penderfynu gan Weinidogion yng Nghymru?

6. Mae'r Mesur yn ymdrin â gwneud iawn mewn perthynas ag atebolrwydd mewn camwedd, h.y. lle mae rhywfaint o fai wedi'i brofi heb droi at y llysoedd. A

Ffon / Tel: 029 2089 8224
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

fyddai'n well pe bai'r Cynulliad yn gofyn i San Steffan am y pwerau i gyflwyno 'cynllun dim bai'?

Ysgrifennaf i'ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar sail y cwestiynau a nodir uchod. Efallai nad yw'r cyfan o'r cwestiynau hyn yn berthnasol i'ch sefydliad chi, ac felly nid oes angen i chi gyfeirio atynt yn eich tystiolaeth.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Mesur arfaethedig a'r broses ddeddfwriaethol trwy fynd i safle http://www.assemblywales.org/bus-home/buslegislation.htm

Os ydych yn dymuno cyfrannu at waith y pwyllgor, dylid anfon cyflwyniadau, os yn bosibl trwy'r e-bost neu ar ddisg, neu trwy gyfrwng copi caled at:
Siân Wilkins, Clerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk. (Nodwch '*Ymgynghoriad Pwyllgor NHSR' fel teitl i'r e-bost os gwelwch yn dda.)*

Dylai cyflwyniadau gyrraedd y Cynulliad erbyn dydd Gwener 14 Medi 2007. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth lunio eich cyflwyniad, cofiwch y materion canlynol os gwelwch yn dda:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno ag y bo modd. Rhowch gyfeirnod ar eich ymateb gan ddefnyddio'r teitl a ddefnyddir uchod os gwelwch yn dda;
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau fod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac fe allant hefyd gael eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael ei gyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n amlwg yn eich cyflwyniad;**
- Nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn os gwelwch yn dda;
- Nodwch os gwelwch yn dda a fyddech yn fodlon cyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Clerc (ar y rhif ar waelod y ddalen) neu Sarah Beasley, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8032).

Jonathan Morgan

Jonathan Morgan AC
Cadeirydd

Ffon / Tel: 029 2089 8224
Ffacs / Fax: 029 2089 8021
Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk